

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

CYLLIDEB 2025/26

CYNNWYS

	Tudalen
Rhagair gan y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran ar gyfer Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng-flaen	2 – 3
Pwy Yw'r Awdurdod: Proffil CBSRhCT	4 – 6
Crynodeb	7 – 14
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	15 – 29
Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant	30 – 40
Prif Weithredwr	41 – 54
Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen	55 – 65
Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan	66 – 67

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg / This document is available in English.

RHAGAIR GAN Y DIRPRWY BRIF WEITHREDWR A CHYFARWYDDWR CYFADRAN AR GYFER CYLLID, GWASANAETHAU DIGIDOL A GWASANAETHAU RHENG-FLAEN

Cafodd Cyllideb Refeniw Cyngor Rhondda Cynon Taf ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 a Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd 2025/26 – 2027/28 eu cymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2025 yn unol â chynigion ac argymhellion y Cabinet.

I Rondda Cynon Taf, mae blwyddyn ariannol 2025/26 yn dilyn cyfnod parhaus o ostyngiadau i lefelau cyllid mewn termau real, gwaith adfer ar ôl difrod sylweddol gan stormydd, y pandemig a'r argyfwng costau byw, ac yn y cyddestun hwn y bu'n rhaid i'r Cyngor baratoi cyllideb gytbwys. Ar 20 Chwefror 2025, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai (Jayne Bryant AS) lefelau cyllid referniw ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, sef cynnydd o 4.8% ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 4.5%, gyda lefelau setliad yn amrywio o 3.8% i 5.6%.

Wrth gyhoeddi setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26, roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai wedi cydnabod er bod y setliad yn sylweddol well na'r rhagolygon blaenorol, y bydd penderfyniadau lleol anodd eu gwneud eto oherwydd yr heriau parhaus y mae Cyngorau wedi bod yn eu hwynebu ledled Cymru. Mewn perthynas â Rhondda Cynon Taf, mae'r rhain yn ymwneud â rhagolygon am gynnydd sylweddol mewn costau a phwysau o ran y galw wrth ddarparu gwasanaethau, a chyfyngiadau o ran y gallu i godi Treth y Cyngor (gyda sylfaen dreth isel).

Gyda'r heriau yma mewn golwg, roedd rhagamcanion cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor wedi creu'r sylfaen i lunio gofynion gwariant cadarn a rhagolygon o ran cyllid ymhell cyn mis Mawrth 2025. Roedd hyn wedi llywio'r gwaith o gyflwyno rhaglen waith i gynig strategaeth i fynd i'r afael â diffyg sylweddol yn y gyllideb o £35 miliwn, gan ymgynghori'n gyhoeddus – a chytuno – arni. Roedd y sefyllfa yma'n debyg i sefyllfa'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, lle'r oedd angen i strategaethau cyllideb y Cyngor fynd i'r afael â'r diffygion mwyaf erioed yn ei gyllideb, sef £38.3 miliwn a £36.6 miliwn.

Y canlyniad oedd pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26 sy'n deg i bawb, sydd ddim yn peryglu ein sefydlogrwydd ariannol ac sy'n amddiffyn ac yn datblygu ein gwasanaethau allweddol. Yn fwy penodol, gwnaeth y gyllideb referniw y canlynol - alinio adnoddau a blaenoriaethu buddsoddiad ychwanegol i wasanaethau rheng flaen, a hynny er mwyn helpu i gyflawni amcanion lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor; darparu ar gyfer chwyddiant sy'n gysylltiedig â chyflogau a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau ac effaith y beichiau a phwysau ychwanegol sy'n cael eu rhagweld oherwydd y galw ar wasanaethau'r Cyngor; ariannu ysgolion yn llawn; a phennu cynnydd o 4.70% yn Nhreth y Cyngor, un o'r isaf ledled Cymru. Arweiniodd y mesurau yma at ddiffyg yn y gyllideb o £0.457 miliwn, a gafodd ei chydbwysio drwy drefnau rheoli darbodus parhaus o gronfeydd wrth gefn.

Ochr yn ochr â phennu'r gyllideb referniw, cytunodd y Cyngor hefyd ar raglen gyfalaf tair blynedd newydd. Bydd hyn yn golygu buddsoddiad gwerth £225.315 miliwn mewn seilwaith ledled y fwrdeistref sirol a bydd hefyd yn galluogi

datblygiad parhaus gwasanaethau allweddol, gan gynnwys cyllid penodol ychwanegol gwerth £16.050 miliwn er mwyn gwireddu amcanion y Cynllun Corfforaethol newydd. Mae'r Rhaglen Gyfalaf wedi'i diweddarau, sy'n cael ei hariannu gan adnoddau'r Cyngor a dull rhagweithiol o sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ac ystod o sefydliadau allanol eraill, yn darparu buddsoddiad mewn meysydd fel:

- Adfywio – ymrwymiad ariannu parhaus a hirdymor i adfywio economi'r fwrdeistref sirol, gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan fuddsoddi mewn cymorth i fusnesau lleol, adfywio canol trefi ac ailddatblygu safleoedd allweddol a fydd yn galluogi datblygiad busnes pellach a thwf cyflogaeth;
- Tai – parhau â rhaglen waith benodol i helpu i gartrefi gwag gael eu defnyddio eto; creu tai mwy fforddiadwy; darparu cymorth grant o ran cyfleusterau i bobl anabl i helpu i sicrhau y gall pobl fyw mor annibynnol â phosibl; a grantiau sy'n helpu i wneud cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni, er enghraifft, Grant Gwresogi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Grant Paneli Solar;
- Gofal cymdeithasol – buddsoddiad parhaus mewn cyfleusterau Gwasanaethau i Blant a sefydliadau Gwasanaethau i Oedolion, gan gynnwys y rhaglen gofal ychwanegol;
- Priffyrdd, ffyrdd, pontydd, waliau a lliniaru llifogydd - cynnal a chadw a buddsoddi parhaus mewn strwythurau priffyrdd, mentrau teithio cynaliadwy ac isadeiledd draenio, a fydd yn helpu i leihau ein costau cynnal a chadw o ddydd i ddydd;
- Parciau, mannau gwyrdd, mannau chwarae a chanolfannau hamdden – gwella ansawdd ystod eang o gyfleusterau mewn cymunedau ymhellach i helpu i gefnogi iechyd a lles trigolion;
- Ysgolion – drwy fwrw ymlaen â chyflwyno rhaglen uchelgeisiol i greu ysgolion newydd a gwella cyflwr yr ysgolion presennol ymhellach; a
- Rhaglen barhaus o brosiectau i gefnogi effeithlonrwydd ynni, bioamrywiaeth a datgarboneiddio yn rhan o ddyheadau'r Cyngor mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd.

Wrth edrych tua'r dyfodol, rydyn ni'n rhagweld y bydd lefelau cyllido sector cyhoeddus y DU yn y tymor canolig yn parhau i fod yn heriol, ochr yn ochr â chostau a galw cynyddol am wasanaethau. Er gwaethaf hyn, bydd y Cyngor yn parhau â'i arfer o gynllunio cadarn dros y tymor canolig a'r tymor hir er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n gyfrifol a chefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau fforddiadwy a chynaliadwy sy'n hanfodol i'n cymunedau lleol.

Yn olaf, hoffwn i ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi cyfrannu at lunio'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn yma, gan gynnwys y nifer fawr o bobl a gymerodd ran ym mhroses Ymgynghori ar y Gyllideb y Cyngor. Drwy barhau i gydweithio a rhoi ein dull cadarn o reoli cyllid a gwasanaethau ar waith, dwi'n hyderus y byddwn ni'n goresgyn yr heriau sydd o'n blaenau, cyflawni Cyllideb 2025/26, cynnal sefydlogrwydd ariannol y Cyngor a chyflawni amcanion lles ei Gynllun Corfforaethol yn llwyddiannus.

Barrie Davies CPFA

**Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran ar gyfer Cyllid,
Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng-flaen**

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

PWY YW'R AWDURDOD

PROFFIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei ffurfio yn 1996 o dair o ardaloedd yr hen Forgannwg Ganol. Mae 241,178¹ o bobl yn byw yma, ac o ran y boblogaeth felly, dyma'r trydydd awdurdod unedol mwyaf yng Nghymru. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cwmpasu arwynebedd o 424km² yng Nghymoedd y De, yn ymestyn o Fannau Brycheiniog i'r gogledd i ddinas Caerdydd i'r de.

Mae'r tair ardal ddaearyddol sy'n ffurfio Rhondda Cynon Taf yn rhannu ystod o nodweddion economaidd-gymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau uchel o dlodi cymharol ac o allgau cymdeithasol, yn enwedig yng nghymoedd gogleddol y sir. Gan y rhain mae rhai o'r dangosyddion amddifadedd uchaf yn y Deyrnas Unedig.

Ar 5 Mawrth 2025, cafodd Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 a'r Rhaglen Gyfalaf tair blynedd eu cymeradwyo gan y Cyngor. Mae modd darllen y dogfennau yma trwy glicio ar y dolenni isod.

- [Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26](#)
- [Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – 2027/28](#)

Mae pedwar cyfadran yn adrodd ar wasanaethau'r Cyngor:

Gwasanaethau Addysg
a Chynhwysiant

sy'n darparu gwasanaethau cymorth i blant, ysgolion a'u teuluoedd trwy ystod o feysydd gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Mynediad a Chynhwysiant; Derbyn Disgyblion; Llywodraethu Ysgolion; Mynychu'r Ysgol a Lles; Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif; Rheoli Asedau a Data; Gwasanaethau Arlwyio; Gofal Plant; Gwellu Ysgolion, gan gynnwys drwy'r gwasanaethau a gomisiynir gan Consortiwm Canolbarth y De.

Gwasanaethau Cymuned
a Gwasanaethau i Blant

sy'n cwmpasu: Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n darparu Gwasanaethau i Oedolion (Gwasanaethau Gofal Cymuned a Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) a Gwasanaethau i Blant; a Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd sy'n darparu Gwasanaethau Tai Cymunedol; Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd; Gwasanaethau Hamdden,

¹ Stats Cymru – Amcangyfrif canol blwyddyn 2023

	Cefn Gwlad a Gwasanaethau Diwylliannol (gan gynnwys Theatrau); Atyniadau Ymwelwyr a Threftadaeth; Gwasanaethau Addysg yn y Gymuned; Llyfrgelloedd; Gwasanaethau Cymraeg; Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid; a Rhaglenni Cyflogaeth.
Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng-flaen	sy'n darparu Cyllid, Gwasanaethau Digidol ynghyd â gwasanaethau rheng-flaen y Priffyrdd; Cludiant; Prosiectau Strategol; Gofal y Strydoedd (gan gynnwys Gwasanaethau Gwastraff); a Mannau Cyhoeddus (sy'n cwmpasu Glanhau'r Strydoedd a Gwasanaethau'r Parciau).
Prif Weithredwr	sy'n darparu swyddogaethau Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd; gwasanaethau rheng-flaen Adfywio, Tai, Cynllunio, Budd-daliadau Tai a Threth y Cyngor; a gwasanaethau cymorth allweddol Eiddo'r Cyngor a Chaffael.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

**CYLLIDEB
2025/26**

CRYNODEB

CYLLIDEB YR AWDURDOD CYFAN – CRYNODEB

Mae cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael i'r Awdurdod mewn blwyddyn ariannol yn cael ei rannu'n ddwy elfen, sef Gwariant Refeniw a Gwariant Cyfalaf.

Gwariant Refeniw


O ran ffigurau setliad terfynol Llywodraeth Leol 2025/26, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldebau gwariant, roedd cynnydd o 4.8% mewn Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Gyda chynnydd o 4.70% yn Nhreth y Cyngor, £668.179 miliwn oedd Cyllideb Refeniw Net y Cyngor ar gyfer 2025/26.

Y cyfanswm i'w gasglu gan dalwyr Treth y Cyngor i gynnal gwariant y Cyngor yw £142.725 miliwn.

Gofyniad Cyllideb 2025/26

	£ miliwn
Gwariant Refeniw Net 2025/26	668.179
TYNNU: Grant Cynnal Refeniw a Chyfraniad Ardrethi Annomestig	521.329
TYNNU: Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol	3.668
Is-gyfanswm	143.182
TYNNU: Rhyddhau Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	0.457
I'w dalu gan dalwyr Treth y Cyngor	142.725

Mae'r siart drosodd yn dangos hyn.




Gwariant Cyfalaf

Mae'r manylion am gyllid y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2025/26 i'w gweld yn y tabl isod.

	£ miliwn
Benthycia wedi'i Gynnal	6.870
Benthycia heb ei Gynnal	2.077
Menter Benthycia Llywodraeth Leol (Buddsoddi mewn Priffyrdd)	3.749
Grant Cyfalaf Cyffredinol	8.602
Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Llywodraeth Cymru	0.150
Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol Llywodraeth Cymru	19.000
Grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru	1.063
Grant Diogelwch Tomenni Glo Llywodraeth Cymru	11.337
Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru	34.566
Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU	10.723
Cronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru	6.396
Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru	3.605
Cynllun Prydles Sector Rhentu Preifat Llywodraeth Cymru	0.279
Cyfraniadau Trydydd Parti	0.105
Cyfraniadau refeiwr	46.133
Adnoddau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol	11.381
Rhaglen Gyfalaf 2025/26	166.036



Mae'r siart drosodd yn dangos hyn.



Mae crynodeb o Raglen Gyfalaf Tair Blynedd yr Awdurdod ar gael ar ddiwedd yr adran yma, ac mae'r adrannau dilynol yn cynnwys manylion ar gyfer pob Cyfadran.

GWARIANT REFENIW

Cyfanswm y Gyllideb Refeniw Net ar gyfer yr Awdurdod ar gyfer 2025/26 yw £668.179 miliwn. Cyfanswm y gwariant gros yw £947.254 miliwn, ac mae'n cael ei ddadansoddi yn ôl mathau o wariant yn y siart isod.



REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL: MATH O WARIANT

Cyllideb 2024/25		Cyllideb 2025/26
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
159.272	Athrawon	169.042
213.550	Gweithwyr Llywodraeth Leol NJC	222.825
1.120	JNC – Gweithdai i Bobl Ddall	1.194
2.330	Soulbury	2.416
6.160	Cydgynghor Trafod Telerau – Prif Swyddogion	6.272
0.054	Cydgynghor Trafod Telerau – Arweinwyr Ieuenctid	0.056
10.539	Arall	12.613
393.025		414.418
	<u>Lleoliad</u>	
7.169	Trwsio, a Chynnal a Chadw	7.689
0.642	Cynnal a chadw tiroedd	0.621
14.688	Ynni	10.976
1.088	Rhenti	1.161
6.734	Treth Leol	6.730
0.638	Dŵr	0.634
7.603	Glanhau/Domestig	8.285
0.327	Yswiriant	0.347
0.133	Arall	0.108
39.022		36.551
	<u>Trafnidiaeth</u>	
7.582	Trafnidiaeth Uniongyrchol	4.095
22.284	Llogi dan gcontract	20.771
0.603	Trafnidiaeth gyhoeddus	0.615
1.175	Lwfansau Ceir	1.019
0.296	Arall	0.145
31.940		26.645
	<u>Nwyddau a Gwasanaethau</u>	
19.914	Offer/Deunyddiau/Celfi	19.827
2.857	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	2.977
5.481	Darpariaethau	7.642
0.697	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.630
0.330	Hysbysebu	0.366
0.005	Costau'r Aelodau	0.005
11.958	Grantiau a Chyfraniadau/Tanysgrifiadau	34.802
43.270	Gwasanaethau	47.739
7.706	Amrywiol	8.389
2.877	Arall	3.170
95.095		125.547

	<u>Trydydd Parti</u>	
14.796	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	18.177
51.023	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	53.886
110.250	Wedi cyflwyno drwy gontract preifat	131.883
6.375	Cymorth i Bobl	6.835
15.317	Gofal Maeth	15.847
7.290	Trafnidiaeth	9.553
0.104	Strwythurol	0.106
0.454	Cylchol	0.463
0.417	Cymhorthion diogelwch	0.424
0.078	Gwaith cynnal a chadw y gaeaf	0.079
2.370	Goleuadau Stryd	2.385
0.024	Draeniad priffyrdd	0.024
0.181	Amrywiol	0.180
0.000	Arall	0.085
208.679		239.927
	<u>Taliadau Trosglwyddo</u>	
1.119	Plant ysgol/Myfyrwyr	1.155
73.384	Budd-daliadau Tai a'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	68.824
0.425	Rhyddhad Ardrethi Annomestig	0.425
74.928		70.404
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
4.214	Ailgodi Costau	3.917
4.214		3.917
	<u>Cyllid Cyfalaf</u>	
-0.255	Arall	-2.127
30.243	Costau cyfalaf	31.972
29.988		29.845
876.891	Cyfanswm y Gwariant	947.254
	<u>Incwm</u>	
-135.804	Grantiau gan y Llywodraeth	-168.654
-34.724	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-37.792
-36.770	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-35.327
0.000	Llog	-0.006
-0.260	Ad-daliadau – cyfrif refeniw arall	-0.260
-37.538	Incwm Mewnol	-37.036
-245.096	Cyfanswm yr Incwm	-279.075
631.795	CYLLIDEB REFENIW NET	668.179

Nodwch: Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol (2024/25) yn cael eu nodi er gwybodaeth. Gall newidiadau o ran gofynion cyfrifyddu a chyfrifoldebau swyddogaethol amrywio'r darlun wrth gymharu blynyddoedd.

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL:
GWASANAETHAU SY'N CAEL EU CYNNAL

Cyllideb 2024/25		Cyllideb 2025/26
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant</u>	
122.341	Gwasanaethau i Oedolion	130.435
65.338	Gwasanaethau i Blant	70.630
1.102	Trawsnewid	1.093
18.370	Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned	21.824
207.151		223.982
	<u>Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant</u>	
36.213	Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (heb eu dirprwyo)	37.258
198.462	Ysgolion Dirprwyedig	212.333
234.675		249.591
	<u>Prif Weithredwr</u>	
0.453	Prif Weithredwr	0.469
13.657	Adnoddau Dynol (Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion)	14.330
5.385	Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol	5.638
5.067	Eiddo'r Cyngor	4.128
3.105	Gwasanaethau Ffyniant a Datblygu	2.975
27.667		27.540
	<u>Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen</u>	
11.903	Cyllid a Gwasanaethau Digidol	11.708
70.853	Gwasanaethau Rheng Flaen	72.881
82.756		84.589
552.249	Cyfanswm Cyllideb Grwpiau	585.702
	<u>Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan</u>	
21.708	Cyllid Cyfalaf	21.519
15.941	Ardollau	16.866
14.902	Amrywiol	15.848
0.425	Rhyddhad Ardrethi Annomestig	0.425
26.570	Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	27.819
79.546	Cyfanswm Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan	82.477
631.795	CYFANSWM CYLLIDEB REFENIW	668.179

RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD Y CYNGOR

CYFADRAN	CYLLIDEB		
	2025/26	2026/27	2027/28
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant			
Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant	14.982	0.500	0.500
Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned	3.649	1.830	0.290
Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant			
Ysgolion	46.653	14.176	1.323
Rhaglen Gyfalaf Atodol	4.472	2.685	2.685
Uwchadran y Prif Weithredwr			
Adfywio	13.937	0.823	0.710
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	0.292	0.786	7.385
Cynllunio a Chefn Gwlad	0.112	0.000	0.000
Tai'r Sector Preifat	26.422	7.142	5.870
Eiddo'r Cyngor	6.260	0.900	0.900
Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng-flaen			
Cyllid a Gwasanaethau Digidol	1.709	1.680	1.680
Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd	18.410	1.595	1.395
Prosiectau Strategol	11.237	0.520	0.120
Rhaglen Diogelwch Tomenni Glo	11.337	0.000	0.000
Parciau	1.773	0.065	0.065
Strategaeth Gwastraff	0.670	0.000	0.000
Cerbydau	3.893	1.600	1.600
Adeiladau	0.228	0.227	0.227
CYFANSWM CYLLIDEB GYFALAF	166.036	34.529	24.750

* Mae cyllideb 2025/26 yn cynnwys amcangyfrif o lithriant o 2024/25, a chynlluniau ychwanegol â chymorth grant oedd yn hysbys adeg cytuno'r rhaglen tair blynedd.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

**GWASANAETHAU CYMUNED A
GWASANAETHAU I BLANT**

TROSOLWG O'R GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT


Mae Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yn cynnwys y rhan fwyaf o wasanaethau rheng flaen y Cyngor sy'n dod i gysylltiad â chwsmeriaid. Maen nhw'n gyfrifol am gyflawni ystod o wasanaethau statudol a dewisol. Mae'r rhain yn cynnwys Gwasanaethau Gofal i Oedolion, Gwasanaethau i Blant, Gwasanaethau Trawsnewid ac Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned.

Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ar gyfer 2025/26 yw:

	Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
Rhaglen Gyfalaf	18.631	0.000	18.631
Grant Cynnal	335.528	-111.546	223.982
Cyfanswm	354.159	-111.546	242.613

GWARIANT REFENIW GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT

Cyfanswm Cyllideb Refeniw Net ar gyfer Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ar gyfer 2025/26 yw £223.982 miliwn. Cyfanswm y gwariant gros yw £335.528 miliwn, ac mae'n cael ei ddadansoddi yn ôl mathau o wariant yn y siart isod.



Mae'r Gyfadran yn derbyn incwm o £111.546 miliwn sy'n lleihau gwariant net i £223.982 miliwn. Mae dadansoddiad manwl o sut bydd yr arian yn cael ei wario i'w weld ar dudalennau dilynol yr adran yma.

Grantiau Refeniw Penodol 2025/26

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif feysydd gwariant sydd wedi'u hariannu gan y Grantiau Refeniw Penodol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffigurau gwariant gros/incwm fel y bo'n briodol.

Corff Dyfarnu	Diben	Cyfanswm £ miliwn
Cyngor Celfyddydau Cymru	Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru	0.150
Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg	Rhaglen Gofal Cymunedol ar y Cyd Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg	0.073
	Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg	0.168
	Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg - Costau Cydlynnydd Rhondda Cynon Taf	0.010
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Cyflogaeth dan gymorth	0.247
	Cymhorthdal Budd-dal Tai – Cynllun Gwely a Brecwast	1.116
Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd	0.114
Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru Cyf.	Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru Cyf. – Cynllun Cymunedol Chwaraeon Anabledd Cymru	0.020
Y Swyddfa Gartref	Comisiynydd Heddlu a Throseddau	0.120
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Grant Adfywio	0.125
Comisiynydd Heddlu a Throseddau	Grant y Comisiynydd Heddlu a Throseddau	0.099
Chwaraeon Cymru	Chwaraeon Cymru – Pobl Ifanc Egnïol a'r Loteri Genedlaethol/Gwaith Gweinyddol	0.495
	Chwaraeon Cymru – Nofio Am Ddim i bobl dan 16 oed a phobl 60 oed ac yn hŷn	0.060
	Partneriaeth Actif Canolbarth y De	0.039
	Chwaraeon Cymru – Y Loteri i bobl 60 oed ac yn hŷn	0.051
Llywodraeth y Deyrnas Unedig	Y Gronfa Ffyniant Gyffredin	0.864
Llywodraeth Cymru	Grant Cymunedol i Oedolion	0.520
	Grant Plant a Chymunedau	14.850
	Cymunedau am Waith a Mwy	1.801
	Cefnogaeth Bwyd Uniongyrchol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)	0.087
	Grant Cynllun HWYLUSO	0.004
	Atal Digartrefedd – Grant Arloesol Tai yn Gyntaf	0.101
	Grant Cymorth Tai	14.999
	Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth	0.049
	Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol	4.150
	Merthyr Tudful Mwy Diogel	0.095
	Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru	0.665
	Y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau	6.638

	Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Uwch gan y Cyflogwr (y sector cyhoeddus)	I'w cadarnhau
	Grant Cefnogi Ieuenctid	0.812
	Dileu Elw	I'w gadarnhau
	Diwygio Radical	I'w gadarnhau
	Maethu Cymru	0.232
	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid	0.841
	Grant Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc	0.426
	Plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches	0.027

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT:**
MATH O WARIANT

Cyllideb 2024/25		Cyllideb 2025/26
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
95.559	Gweithwyr Llywodraeth Leol NJC	94.517
1.120	JNC – Gweithdai i Bobl Ddall	1.194
1.790	Cydgyngr Trafod Telerau – Prif Swyddogion	1.788
3.466	Arall	4.150
101.935		101.649
	<u>Lleoliad</u>	
1.772	Trwsio, a Chynnal a Chadw	2.211
4.518	Ynni	2.947
0.424	Rhenti	0.531
1.449	Treth Leol	1.415
0.371	Dŵr	0.364
0.776	Glanhau/Domestig	0.779
0.042	Arall	0.046
9.352		8.293
	<u>Trafnidiaeth</u>	
2.457	Llogi dan gontract	2.598
0.951	Lwfansau Ceir	0.805
0.296	Arall	0.145
3.704		3.548
	<u>Nwyddau a Gwasanaethau</u>	
5.326	Offer/Deunyddiau/Celfi	5.462
0.614	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.620
0.820	Darpariaethau	0.678
0.224	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.213
0.140	Grantiau a Chyfraniadau/Tanysgrifiadau	0.127
3.787	Gwasanaethau	3.067
3.896	Amrywiol	4.641
0.188	Arall	0.219
14.995		15.027
	<u>Trydydd Parti</u>	
13.106	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	16.492
33.288	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	35.226
110.175	Wedi cyflwyno drwy gontract preifat	131.807
15.317	Gofal Maeth	15.847
6.375	Cymorth i Bobl	6.835
0.000	Arall	0.085
178.261		206.292

0.181	<u>Taliadau Trosglwyddo</u>	0.218
0.181	Plant ysgol/Myfyrwyr	0.218
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.655	Ailgodi Costau	0.458
0.655		0.458
	<u>Cyllid Cyfalaf</u>	
0.000	Arall	0.043
0.000		0.043
309.083	Cyfanswm y Gwariant	335.528
	<u>Incwm</u>	
-53.408	Grantiau gan y Llywodraeth	-60.018
-29.028	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-32.361
-17.274	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-16.868
-2.222	Incwm Mewnol	-2.299
-101.932	Cyfanswm yr Incwm	-111.546
207.151	CYLLIDEB NET Y GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT	223.982

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT:**
GWASANAETHAU SY'N CAEL EU CYNNAL

Cyllideb 2024/25		Cyllideb 2025/26
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gwasanaethau i Oedolion</u>	
9.129	Cymorth a Gofal Tymor Hir	9.501
82.971	Gwasanaethau wedi'u Comisiynu	97.829
21.632	Gwasanaethau Darparwyr	19.190
10.928	Ymyrraeth Tymor Byr	6.833
-4.197	Codi Tâl Tecach	-4.704
1.878	Gwasanaethau Rheoli, Diogelu a Chymorth	1.786
122.341		130.435
	<u>Gwasanaethau i Blant</u>	
41.998	Diogelu a Chymorth (gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal)	48.805
8.371	Ymyrraeth Gynnar	5.193
1.002	Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf	1.115
13.456	Ymyrraeth Ddwys	15.104
0.511	Gwasanaethau Rheoli a Chymorth	0.413
65.338		70.630
	<u>Trawsnewid</u>	
0.667	Uned Hyfforddiant Rhanbarthol	0.713
0.291	Rheoli Grwpiau a Gweddnewid	0.235
0.144	Gwella Gwasanaethau	0.145
1.102		1.093
188.781	GWASANAETHAU CYMDEITHASOL – CYFANSWM	202.158
	<u>Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned</u>	
6.226	Diogelwch y Cyhoedd	8.301
5.222	Gwasanaethau Cymuned	5.267
0.139	Cymunedau a Lles	2.269
6.664	Hamdden, Cefn Gwlad ac Atyniadau Ymwelwyr	5.866
0.119	Cyfadrn	0.121
18.370		21.824
207.151	CYFANSWM CYLLIDEB Y GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT	223.982

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL
GWASANAETHAU I OEDOLION: MATH O WARIANT

Cyllideb 2024/25		Cyllideb 2025/26
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
39.713	Gweithwyr Llywodraeth Leol NJC	34.931
1.120	JNC – Gweithdai i Bobl Ddall	1.194
0.406	Cydgynghor Traford Telerau – Prif Swyddogion	0.431
2.199	Arall	2.192
43.438		38.748
	<u>Lleoliad</u>	
0.272	Trwsio, a Chynnal a Chadw	0.272
0.828	Ynni	0.531
0.187	Rhenti	0.192
0.026	Treth Leol	0.016
0.122	Dŵr	0.110
0.288	Glanhau/Domestig	0.270
0.003	Arall	0.004
1.726		1.395
	<u>Trafnidiaeth</u>	
1.653	Llogi dan gontract	1.644
0.537	Lwfansau Ceir	0.379
0.109	Arall	0.079
2.299		2.102
	<u>Nwyddau a Gwasanaethau</u>	
3.887	Offer/Deunyddiau/Celfi	3.958
0.181	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.139
0.650	Darpariaethau	0.507
0.097	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.096
0.027	Grantiau a Chyfraniadau/Tanysgrifiadau	0.028
0.374	Gwasanaethau	0.380
0.600	Amrywiol	0.595
0.045	Arall	0.044
5.861		5.747
	<u>Trydydd Parti</u>	
3.285	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	6.984
24.798	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	26.639
79.492	Wedi cyflwyno drwy gontract preifat	92.186
0.000	Arall	0.085
107.575		125.894
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.200	Ailgodi Costau	0.200
0.200		0.200
161.099	Cyfanswm y Gwariant	174.086

	<u>Incwm</u>	
-7.658	Grantiau gan y Llywodraeth	-8.918
-26.185	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-29.620
-3.983	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-4.184
-0.932	Incwm Mewnol	-0.929
-38.758	Cyfanswm yr Incwm	-43.651
122.341	CYLLIDEB NET Y GWASANAETHAU I OEDOLION	130.435

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL
GWASANAETHAU I BLANT: MATH O WARIANT

Cyllideb 2024/25		Cyllideb 2025/26
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
28.036	Gweithwyr Llywodraeth Leol NJC	26.761
0.669	Cydgynghor Traford Telerau – Prif Swyddogion	0.603
0.526	Arall	0.122
29.231		27.486
	<u>Lleoliad</u>	
0.043	Trwsio, a Chynnal a Chadw	0.021
0.242	Ynni	0.131
0.144	Rhenti	0.260
0.088	Treth Leol	0.067
0.015	Dŵr	0.011
0.192	Glanhau/Domestig	0.090
0.029	Arall	0.005
0.753		0.585
	<u>Trafnidiaeth</u>	
0.681	Llogi dan gontract	0.827
0.300	Lwfansau Ceir	0.287
0.076	Arall	0.036
1.057		1.150
	<u>Nwyddau a Gwasanaethau</u>	
0.127	Offer/Deunyddiau/Celfi	0.130
0.087	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.089
0.090	Darpariaethau	0.090
0.019	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.019
0.010	Grantiau a Chyfraniadau/Tanysgrifiadau	0.007
1.643	Gwasanaethau	0.564
0.361	Amrywiol	0.244
0.018	Arall	0.038
2.355		1.181
	<u>Trydydd Parti</u>	
2.496	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	0.717
6.854	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	1.716
30.328	Wedi cyflwyno drwy gontract preifat	36.752
15.317	Gofal Maeth	15.847
54.995		55.032
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.181	Plant ysgol/Myfyrwyr	0.218
0.181		0.218

0.215	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	0.175
0.215	Ailgodi Costau	0.175
88.787	Cyfanswm y Gwariant	85.827
	<u>Incwm</u>	
-22.051	Grantiau gan y Llywodraeth	-14.199
-1.020	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-1.055
-0.057	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-0.020
-0.321	Incwm Mewnol	0.077
-23.449	Cyfanswm yr Incwm	-15.197
65.338	CYLLIDEB NET GWASANAETHAU I BLANT	70.630

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**TRAWSNEWID: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2024/25		Cyllideb 2025/26
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
2.126	Gweithwyr Llywodraeth Leol NJC	2.606
0.148	Cydgyngror Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.154
0.000	Arall	0.000
2.274		2.760
	<u>Lleoliad</u>	
0.022	Rhenti	0.021
0.002	Glanhau/Domestig	0.002
0.024		0.023
	<u>Trafnidiaeth</u>	
0.017	Lwfansau Ceir	0.017
0.002	Arall	0.002
0.019		0.019
	<u>Nwyddau a Gwasanaethau</u>	
0.012	Offer/Deunyddiau/Celfi	0.012
0.011	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.010
0.007	Darpariaethau	0.007
0.010	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.006
0.000	Grantiau a Chyfraniadau/Tanysgrifiadau	0.000
0.072	Gwasanaethau	0.200
0.342	Amrywiol	0.347
0.012	Arall	0.012
0.466		0.594
	<u>Trydydd Parti</u>	
0.056	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	0.090
0.096	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	0.097
0.116	Wedi cyflwyno drwy gontract preifat	0.052
0.268		0.239
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.018	Ailgoddi Costau	0.018
0.018		0.018
3.069	Cyfanswm y Gwariant	3.653
	<u>Incwm</u>	
-1.039	Grantiau gan y Llywodraeth	-1.598
-0.893	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-0.928
-0.035	Incwm Mewnol	-0.034
-1.967	Cyfanswm yr Incwm	-2.560
1.102	CYLLIDEB NET GWASANAETHAU TRAWSNEWID	1.093

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED:
MATH O WARIANT**

Cyllideb 2024/25		Cyllideb 2025/26
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
25.684	Gweithwyr Llywodraeth Leol NJC	30.219
0.567	Cydgyngror Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.600
0.741	Arall	1.836
26.992		32.655
	<u>Lleoliad</u>	
1.457	Trwsio, a Chynnal a Chadw	1.918
3.448	Ynni	2.285
0.071	Rhenti	0.058
1.335	Treth Leol	1.332
0.234	Dŵr	0.243
0.294	Glanhau/Domestig	0.417
0.010	Arall	0.037
6.849		6.290
	<u>Trafnidiaeth</u>	
0.123	Llogi dan gontract	0.127
0.097	Lwfansau Ceir	0.122
0.109	Arall	0.028
0.329		0.277
	<u>Nwyddau a Gwasanaethau</u>	
1.300	Offer/Deunyddiau/Celfi	1.362
0.335	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.382
0.073	Darpariaethau	0.074
0.098	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.092
0.103	Grantiau a Chyfraniadau/Tanysgrifiadau	0.092
1.698	Gwasanaethau	1.923
2.593	Amrywiol	3.455
0.113	Arall	0.125
6.313		7.505
	<u>Trydydd Parti</u>	
7.269	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	8.701
1.540	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	6.774
0.239	Wedi cyflwyno drwy gontract preifat	2.817
6.375	Cymorth i Bobl	6.835
0.000	Arall	0.000
15.423		25.127
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.222	Ailgoddi Costau	0.065
0.222		0.065

0.000	<u>Cyllid Cyfalaf</u>	0.043
0.000	Arall	0.043
56.128	Cyfanswm y Gwariant	71.962
	<u>Incwm</u>	
-22.660	Grantiau gan y Llywodraeth	-35.303
-0.930	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-0.758
-13.234	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-12.664
-0.934	Incwm Mewnol	-1.413
-37.758	Cyfanswm yr Incwm	-50.138
18.370	CYLLIDEB NET IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED	21.824

**RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD GWASANAETHAU CYMUNED A
GWASANAETHAU I BLANT**

	CYLLIDEB		
	2025/26	2026/27	2027/28
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
<u>Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant</u>			
Rhaglen Foderneiddio (Oedolion)	14.281	0.095	0.095
Rhaglen Foderneiddio (Plant)	0.221	0.025	0.025
Gwaith Ymdrin ag Asbestos	0.125	0.025	0.025
Offer Teleofal (gan gynnwys Offer 'Carelink')	0.140	0.140	0.140
Cyfalafu Cyfrifiaduron			
Caledwedd/Meddalwedd/Trwyddedau ac Offer	0.215	0.215	0.215
Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant	14.982	0.500	0.500
<u>Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned</u>			
Rhaglen Ailwampio'r Canolfannau Hamdden	0.555	0.055	0.055
Mannau Chwarae	1.125	0.045	0.045
Rhaglen Mynwentydd Arfaethedig	0.090	0.090	0.090
Mentrau Cymunedau Diogel	0.324	1.585	0.045
Diwylliant	1.520	0.020	0.020
Adeiladau	0.035	0.035	0.035
Cyfanswm Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned	3.649	1.830	0.290
CYFANSWM CYLLIDEB GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT	18.631	2.330	0.790

* Mae cyllideb 2025/26 yn cynnwys amcangyfrif o lithriant o 2024/25, a chynlluniau ychwanegol â chymorth grant oedd yn hysbys adeg cytuno'r rhaglen dair blynedd.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT

ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT

Mae'r blaenoriaethau strategol troswaol y tynnwyd sylw atyn nhw yng Nghynllun Strategol y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ar gyfer 2022-25 yn cynnwys:

1. Datblygu gweithlu addysgol sy'n hynod fedrus, ac arweinwyr sy'n rhagorol ar bob lefel.
2. Cefnogi ysgolion i ddarparu cwricwlwm trawsnewidiol ac addysgu a dysgu o safon uchel gyda chanlyniadau gwell i bawb.
3. Sicrhau'r llwybr dysgu cywir a'r cymorth gorau i ddysgwyr sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.
4. Gwellu lles dysgwyr a'r gweithlu.
5. Cyflwyno amgylcheddau dysgu a gwasanaethau sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer ein dysgwyr a'n cymunedau.

Mae dau brif faes gwasanaeth:

- Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (heb eu dirprwyo)
- Ysgolion Dirprwyedig

TROSOLWG – GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT


Mae'r Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant yn cwmpasu dau brif faes gwasanaeth, sef Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (Heb eu Dirprwyo) ac Ysgolion Wedi'u Dirprwyo.

Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ym mlwyddyn ariannol 2025/26 yw:

	Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
Rhaglen Gyfalaf	51.125	0.000	51.125
Refeniw'r Gronfa Gyffredinol	315.548	-65.957	249.591
Cyfanswm	366.673	-65.957	300.726

GWARIANT REFENIW'R GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT

Cyfanswm Cyllideb Refeniw Net y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ar gyfer 2025/26 yw £249.591 miliwn. Cyfanswm y gwariant gros yw £315.548 miliwn, ac mae'n cael ei ddadansoddi yn ôl mathau o wariant yn y siart isod.



Mae'r incwm sydd wedi'i dderbyn o £65.957 miliwn yn gostwng y gwariant gros i £249.591 miliwn. Mae dadansoddiad manwl o sut y bydd yr arian yma'n cael ei wario i'w weld ar y tudalennau dilynol yn yr adran yma.

Grantiau Refeniw Penodol 2025/26

Mae'r tabl isod yn nodi grantiau refeniw penodol.

Corff Dyfarnu	Diben	Swm £miliwn
Llywodraeth Cymru	Darpariaeth ysgol i ddisgyblion dros 16 oed	10.130
	Safonau Ysgol – Ysgolion ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol	12.544
	Safonau Ysgol – Addysg Gynnar	0.690
	Safonau Ysgol – Cynnal safonau mewn addysg	0.403
	Ecwiti – Grant Datblygu Disgyblion	10.839
	Ecwiti – Addysg Ddewisol yn y Cartref	0.090
	Ecwiti – Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd	0.781
	Ecwiti – Ysgolion Bro	0.032
	Ecwiti - Dysgu Proffesiynol Ysgolion Bro	0.082
	Ecwiti – Swyddogion Lles Addysg	0.205
	Ecwiti – Cyfoethogi	0.168
	Ecwiti – Grant Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr	0.344
	Diwygio – Anghenion Dysgu Ychwanegol	2.539
	Diwygio – Lles	0.393
	Diwygio – Diwygio'r Cwricwlwm	1.236
	Diwygio – Dysgu Proffesiynol	1.070
	Cymraeg 2050 – Cymraeg mewn Addysg	0.333
	Cymraeg 2050 – Dysgu Proffesiynol Cymraeg	0.113
	Cymraeg 2050 – Siarter Iaith	0.042
	Cymraeg 2050 – Trochi Hwyr	0.157
	Arian Pontio	0.066
	Dilyniant Gwelliant Disgyblion (ar gyfer disgyblion y chweched dosbarth)	0.287
	Rhwydwaith Seren (amcangyfrif)	0.039
	Grant Clybiau Gofal tu allan i oriau ysgol	0.082
	Grant Urddas yn Ystod Mislif	0.222
	Grant Seilwaith TGCh mewn Ysgolion Hwb (amcangyfrif)	0.969
	Grant Hanfodion Ysgol (amcangyfrif)	1.105
	Gweinyddiaeth Gofal Plant Meithrin	0.279
	Gofal Plant – Meithrinfa	0.300
	Bwyd a Hwyl (amcangyfrif)	0.188
	Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (amcangyfrif)	6.161
	Model Buddsoddi Cydfuddiannol	5.212
	Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Uwch gan y Cyflogwr (y sector cyhoeddus)	I'w cadarnhau
Asiantaeth Taliadau Gwledig	Llaeth i Fabanod (amcangyfrif)	0.513

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2024/25		Cyllideb 2025/26
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
159.272	Athrawon	169.042
43.290	Gweithwyr Llywodraeth Leol NJC	47.828
